**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JMEWL/2818/23

Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1SN

30 Tachwedd 2023

Annwyl Lywydd

**Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Cymru) (Diwygio etc.) 2023**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu y daw Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Cymru) (Diwygio etc.) 2023 ("Rheoliadau Cymru") i rym ar 1 Rhagfyr 2023, lai na 21 o ddiwrnodau ar ôl iddynt gael eu gosod. Amgaeir copi o Reoliadau Cymru a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â hwy er gwybodaeth ichi.

Mae Llywodraeth y DU yn defnyddio'r pwerau cydredol yn Neddf Cymwysterau Proffesiynol 2022 i wneud Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Diwygio) 2023 ("Rheoliadau'r DU"). Mae Rheoliadau'r DU yn gweithredu ledled y DU ddarpariaethau sy'n ymwneud â chydnabod cymwysterau proffesiynol sydd wedi eu cynnwys yn y cytundeb masnach rydd rhwng Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy a'r Deyrnas Unedig (“y Cytundeb Masnach Rydd”), ac yn gwneud darpariaeth mewn meysydd pwnc sydd wedi eu datganoli i Gymru.

Mae Rheoliadau Cymru yn diwygio Rheoliadau'r DU i ddarparu nad ydynt yn gymwys i reoleiddwyr Cymreig ar broffesiynau rheoleiddiedig penodedig y mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol mewn cysylltiad â hwy.

Mae Rheoliadau Cymru hefyd yn gosod y dyletswyddau sy'n ofynnol o dan y Cytundeb Masnach Rydd ar reoleiddwyr Cymreig ac maent yn diwygio deddfwriaeth sectorol yng Nghymru i adlewyrchu gweithredu'r Cytundeb Masnach Rydd a dirymu Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2015.

Gan fod Rheoliadau Cymru yn diwygio Rheoliadau'r DU, bu rhaid gohirio gwneud Rheoliadau Cymru nes bod Rheoliadau'r DU wedi'u gwneud ac yn bodoli yn y gyfraith. Ni osododd Llywodraeth y DU Reoliadau'r DU hyd 17 Hydref, ac ni wnaed y rhain hyd 29 Tachwedd. Roedd hyn yn golygu na ellid gwneud Rheoliadau Cymru hyd 30 Tachwedd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gan fod rhaid i Reoliadau Cymru ddod i rym erbyn 1 Rhagfyr er mwyn cydymffurfio â thelerau'r Cytundeb Masnach Rydd, mae hi felly yn angenrheidiol iddynt ddod i rym lai na 21 o ddiwrnodau ar ôl iddynt gael eu gwneud. Os nad yw Rheoliadau Cymru mewn grym erbyn y dyddiad hwnnw, mae risg y bydd rheoleiddwyr Cymreig a Gweinidogion Cymru yn torri'r Cytundeb Masnach Rydd ac yn methu â chyflawni rhwymedigaethau rhyngwladol.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd; Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd; Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau; a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language